Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cysylltu â'ch cymuned leol

## Canllaw Cyfathrebu i Gynghorwyr Cymuned a Thref Cymru a'u Clercod



OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG41914 ISBN digidol 978-1-80082-684-7

# Cynnwys


- **Croeso**
- **Eich man cychwyn**
- **Dewisiadau cyfathrebu**
- **Rheoli eich neges**
- **Cyfathrebu Ar-lein**
  - Eich gwefan
  - Cyfryngau Cymdeithasol
  - Facebook
  - Twitter
  - Rheoli'r cyfryngau cymdeithasol
  - Ysgrifennu ar gyfer eich cynulleidfa ar-lein
  - Delio â sylwadau negyddol
- **Gweithio gyda'ch cyfryngau lleol**
  - Creu cysylltiadau cadarnhaol â'r cyfryngau
  - Dod â'ch newyddion yn fyw
  - Cael gafael ar straeon
  - Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu datganiad newyddion
- **Ysgrifennu straeon gwych ar gyfer eich cyngor**
- **Defnyddio delweddau i ddal sylw**
- **Cynhyrchu cyhoeddiadau proffesiynol**
  - Newyddlenni
  - Taflenni a phosteri
  - Cynhyrchu
- **Hyrwyddo digwyddiadau**
- **Cyfathrebu â phobl 'anodd eu cyrraedd'**
- **Atodiadau**
  1. Archwiliad cyfathrebu
  2. Templed datganiad newyddion
  3. Ffurflen gydsynio i gyfweleion
  4. Ffurflen gydsynio ar gyfer ffotograffau
  5. Hygyrchedd a Dwyieithrwydd
  6. Templed dyddiad i'r dyddiadur
  7. Offeryn cynllunio ar gyfer cyfathrebu â grwpiau anodd eu cyrraedd
  8. Gweithgareddau gweithdy
  9. Gwybodaeth ddefnyddiol

## Croeso:

Cynghorau cymunedol a thref sydd wrth wraidd llywodraeth leol yng Nghymru ac maen nhw'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella cymunedau lleol a gwella bywydau preswylwyr.

Maen nhw'n darparu llawer o wahanol wasanaethau i'w cymunedau ac mae ganddynt rôl bwysig fel llais pobl leol.

Yng Nghymru mae tua 70 y cant o'r boblogaeth yn cael ei gwasanaethu gan fwy na 730 o gynghorau cymunedol a thref, sy'n cael eu rhedeg gan oddeutu 8,000 o gynghorwyr.

Mae ardaloedd cynghorau yn amrywio o drefi mawr i aneddiadau gwledig bach, ac mae nifer y staff a'r gyllideb ar gyfer pob cyngor yn amrywio'n sylweddol.

Yn 2018 comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

Canfu’r adolygiad fod llawer o gynghorau cymuned a thref yn ymgysylltu’n rhagweithiol â’u cymunedau gan ddefnyddio newyddlenni, adroddiadau blynyddol, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau. Fodd bynnag, ymhlith y cyhoedd mae diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o hyd o gyfraniad cynghorau tref a chymuned i gymunedau lleol. Argymhellodd y panel adolygu bod *'Cynghorau Cymuned a Thref yn archwilio dulliau digidol er mwyn hwyluso’r ffyrdd o gynnal cyfarfodydd, o ymgysylltu ac o rannu gwybodaeth'.*

Mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg o gynghorau cymuned a thref Cymru i ddarganfod mwy am sut maen nhw'n cyfathrebu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Ymatebodd dros 300 o gynghorau i'r arolwg. Ymysg y prif ganfyddiadau roedd y canlynol:

- Roedd gan bron pob cyngor a ymatebodd i'r arolwg ei wefan ei hun, neu un a gynhaliwyd gan sefydliad allanol.
- Mae gan oddeutu tri chwarter y cynghorau hynny a ymatebodd reolaeth lawn dros eu gwefan, gyda'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n weddill yn trosglwyddo eu cynnwys i drydydd parti ddiweddaru eu gwefan.
- Mae bron i hanner y cynghorau a ymatebodd i'r arolwg yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â'u cymuned, gyda'r mwyafrif yn defnyddio Facebook.
- Nid yw tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn defnyddio gwybodaeth o'r cyfryngau cymdeithasol neu blatfformau digidol eraill i gynorthwyo gyda'r broses o wneud penderfyniadau.

Tynnodd yr ymatebion i'r arolwg sylw hefyd at nifer o heriau y mae cynghorau cymuned a thref wedi'u nodi wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol:-

- Sylwadau negyddol neu annymunol;

- Cysylltu ag aelodau o'r gymuned nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol;
- Yr amser sydd ei angen i fonitro a diweddaru cyfrifon cyfryngau cymdeithasol;
- Pryderon ynghylch preifatrwydd, newyddion ffug, camddehongli.

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar ymatebion i ganfyddiadau'r arolwg, a'i nod yw gweithredu ar argymhelliad y panel adolygu annibynnol.

Efallai y bydd eich cyngor mewn sefyllfa lle mae ond yn gallu darparu'r sianeli cyfathrebu sylfaenol sy'n ofynnol i ymgysylltu â'r gymuned leol a darparu gwybodaeth iddi, neu efallai yr hoffech ddarparu cynllun cyfathrebu blynyddol mwy helaeth.

Beth bynnag fo'ch man cychwyn, neu'ch nodau ar gyfer y dyfodol, gobeithiwn y bydd yr awgrymiadau ymarferol yn y canllaw hwn yn ddefnyddiol ichi

## Eich man cychwyn:

Mae gan gynghorau cymuned a thref gyfrifoldebau statudol i ddarparu gwybodaeth am eu gwaith, gan gynnwys sicrhau bod gwybodaeth gyfoes ar gael ar y rhyngrwyd.

Dyma beth ddylai fod ar gael ar eich gwefan:

- Manylion cyswllt i ganiatáu i bobl gysylltu â'ch cyngor a'ch clerc, gan gynnwys rhif ffôn a chyfeiriadau e-bost a phost.
- Rhestr o aelodau'ch cyngor: eu henwau; sut y gellir cysylltu â nhw; aelodaeth o unrhyw blaid; manylion unrhyw swydd neu aelodaeth o bwyllgorau eich cyngor; ac, os yw'ch cyngor wedi'i rannu'n wardiau, y ward y maen nhw'n ei chynrychioli. Os yw'r aelod wedi'i gyfethol yn hytrach na'i ethol dylid nodi hynny hefyd.
- Cofnodion cyfarfodydd a, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, dogfennau a welir yn y cyfarfodydd.
- Hysbysiadau cyhoeddus.
- Cyfrifon archwiliedig blynyddol.
- Cofrestr o fuddiannau aelodau'r cyngor.
- Manylion unrhyw daliadau a wneir i gynghorwyr.

Mae'r rhain yn cael eu hystyried yn ofynion sylfaenol, ond fel y mae'r canllaw hwn yn egluro mae sawl ffordd o gyfathrebu â phobl leol, gan roi'r cyfle ichi ddweud wrthyn nhw am eich gwaith ac ennyn eu diddordeb mewn materion, newyddion a digwyddiadau lleol.

## Eich dewisiadau cyfathrebu:

Beth yw 'cyfathrebu'? Yn y bôn, mae'n golygu cyfnewid gwybodaeth ar lafar, drwy ddelweddau neu'n ysgrifenedig.

Mae cyfathrebu cymunedol effeithiol yn seiliedig ar dair egwyddor:

**Mynediad**: dweud wrth bobl leol am eich cyngor a'i weithgareddau. Rhoi gwybod iddyn nhw gyda phwy i gysylltu, ble rydych chi a sut i gymryd rhan;

**Gwybodaeth**: rhoi gwybod i bobl am ddigwyddiadau neu weithgareddau penodol;

**Codi ymwybyddiaeth**: ennyn diddordeb mewn gweithgaredd, digwyddiad neu fater penodol.

Mae angen i gynghorau cymuned a thref allu cyfleu negeseuon yn glir ac yn gyson, gan helpu pobl ar draws eu cymuned i fod yn ymwybodol o'u cyngor lleol, dod yn rhan ohono, ac elwa ohono.

Sut allwch chi gyfathrebu â phobl leol? Mae gennych ddewis eang iawn, a dyma restr o'r 'sianeli' y byddech chi am eu defnyddio o bosibl. Mae'r canllaw hwn yn manylu ar amrywiol sianeli, gan esbonio sut i ddechrau a darparu rhai awgrymiadau a allai fod yn ddefnyddiol ichi hyd yn oed os ydych chi eisoes yn cyfathrebu'n eang â'ch cymuned leol.

- Y wefan
- Cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter, YouTube neu sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill eich cyngor, a chyfryngau cymdeithasol cymunedol fel tudalen Facebook y pentref hefyd)
- E-bost
- Eich swyddfa
- Hysbysfyrddau
- Papurau newydd lleol a chyfryngau lleol eraill
- Newyddlenni
- Taflenni a chyhoeddiadau eraill
- Digwyddiadau

## Rheoli Eich Neges

Pa bynnag ddulliau y byddwch yn eu dewis, er mwyn cyfathrebu'n effeithiol, y rheol euraidd yw canolbwyntio ar y pum cwestiwn - Pwy, Beth, Pryd, Ble a Pham?

**Pwy** - Mae gan gynghorau cymuned a thref ddau brif gategori o gynulleidfa, ac o bosibl bod cyfres o negeseuon penodol ac o bosibl negeseuon gwahanol ar bob un ohonynt:

- Allanol - cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol: preswylwyr, darpar gyfranogwyr, sefydliadau cymunedol, busnesau a sefydliadau allweddol eraill.

- Mewnol - cyfathrebu rhwng staff eich cyngor a chynghorwyr i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a bod pawb yn rhoi negeseuon cyson i'r gymuned leol.

**Beth** - 20 i 50 o eiriau wedi'u dewis yn ofalus i gyfleu eich neges.

| |
|---|
| **Awgrym** - Prawf da yw gweld a allwch gyfleu eich neges mewn 30 eiliad. |

**Pryd**- mae defnyddio calendr 12 mis yn helpu i strwythuro'ch cynllun cyfathrebu ac i drefnu gweithgareddau cyfathrebu rheolaidd fel newyddlenni chwarterol, colofnau misol mewn papur newydd lleol a digwyddiadau rheolaidd.

Mae cael calendr cyfathrebu wedi'i ddiweddaru hefyd yn sicrhau nad yw'ch digwyddiadau'n gwrthdaro ag unrhyw ddigwyddiadau eraill yn eich cymuned.

| |
|---|
| **Awgrym** - Mae llawer o dempledi calendr cyfathrebu ar gael am ddim ar-lein. |

Cyfeiriwch at Atodiad 8, Gweithgaredd 1: Archwiliad Cyfathrebu, a fydd yn eich helpu i ddatblygu eich calendr cyfathrebu eich hun. Os ydych yn gyngor bach efallai mai dim ond llond llaw o eitemau sydd gennych ar eich calendr, sy'n canolbwyntio ar eich dyletswyddau statudol, ond efallai y bydd cynghorau mwy o faint a chanddynt sawl aelod o staff eisiau datblygu calendr mwy helaeth.

**Lle** - mae'n hanfodol cynnwys:

- Teitl y digwyddiad
- Dyddiad ac amser (dechrau a gorffen)
- Lleoliad
- Enw cyswllt
- Sut i ymuno neu archebu lle

| |
|---|
| **Awgrym** - Gofynnwch i gydweithiwr brawf-ddarllen y testun bob amser i sicrhau bod y manylion pwysig yn gywir a bod yr holl bwyntiau pwysig wedi'u cynnwys. |

**Pam** - dyma'r cymhelliant i rywun ymgysylltu â'ch deunydd cyfathrebu. Meddyliwch amdano o safbwynt 'Beth yw'r fantais i mi' (sut y bydd rhywun sy'n cymryd rhan yn elwa o ddod i'ch digwyddiad) os ydych chi am ddenu cynulleidfa.

## Cyfathrebu Ar-lein:

Mae'r rhan fwyaf o'ch cymuned yn mynd i chwilio amdanoch chi ar y Rhyngrwyd. Yn 2019 dywedodd 91% o oedolion y DU eu bod wedi bod ar-lein yn ddiweddar a dywedodd 67% o boblogaeth y DU eu bod yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol.[1]

[1] Swyddfa Ystadegau Gwladol, Bwletin Ystadegol 'Mynediad i'r Rhyngrwyd - cartrefi ac unigolion, Prydain Fawr: 2019' (Saesneg yn unig)

Mae'r mwyafrif o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru wedi bod yn rhagweithiol yn y maes hwn ac mae ganddyn nhw wefan. Os oes angen help arnoch i ddatblygu eich gwefan gyntaf, efallai y bydd Un Llais Cymru neu'ch prif gyngor yn gallu eich rhoi ar ben ffordd.

**Eich gwefan**

Mae gwefan wedi dod yn ddull cyfathrebu mor allweddol nes y bydd pobl sydd am gael gwybodaeth am eich cyngor yn cymryd yn ganiataol bod gennych un. Maen nhw'n disgwyl gallu cael gwybodaeth am eich gwasanaethau ac unrhyw weithgaredd sydd gennych drwy glicio botwm, felly os nad oes gennych wefan gyfoes bydd eich cyngor yn sicr ar ei golled!

Ar wahân i fod yn offeryn cyfathrebu cost isel, mae gwefan eich cyngor ar gael i'ch cymuned ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos.

Felly ydych chi'n gwneud y gorau o'ch presenoldeb ar y we? Pethau i'w hystyried:

- Ydych chi wedi nodi pa ran sydd gan eich gwefan i'w chwarae yn eich cynllun cyfathrebu cyffredinol?
- Ydy eich gwefan yn cynnwys dolenni i'ch cyfryngau cymdeithasol? Peidiwch â cholli'r cyfle hwn i hyrwyddo'ch tudalennau Facebook, Twitter a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill.
- Oes gennych frand cyson, gan ddefnyddio ffontiau, lliwiau a logos tebyg i'r rhai rydych chi'n eu defnyddio ar gyfer deunyddiau print ac ar gyfryngau cymdeithasol?
- Ydy pwrpas y wefan a sut i gysylltu â chi yn glir?
- Ydych chi wedi sicrhau bod gan eich gwefeistr enwebedig (yr unigolyn sy'n gofalu am y wefan) y sgiliau a'r amser angenrheidiol i gadw'ch gwefan yn gyfredol ac yn gyfoes?
- Sut ydych chi'n monitro gweithgaredd ymwelwyr ar eich gwefan ac effeithiolrwydd y wefan?
- Sut ydych chi'n adnabod y defnyddwyr sy'n ymweld â'ch gwefan ac yn elwa ohoni?
- Sut ydych chi'n ymateb i adborth am eich gwefan?

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae'r cyfryngau cymdeithasol a'u hystod gynyddol o lwyfannau wedi cael cryn effaith ar sut mae pobl yn darganfod, yn darllen ac yn rhannu newyddion a gwybodaeth. Mae llawer o gynghorau cymuned a thref eisoes yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Os yw eich cyngor eisoes yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ydych chi'n gwneud y gorau ohonynt? Oes gennych chi arferion da i'w rhannu ag eraill? Os nad ydych yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, pa fanteision allai fod i'ch cyngor yn sgil dechrau eu defnyddio?

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn gyflym ac yn rhad ac am ddim i'w defnyddio yn ogystal â bod yn ffordd wych o drosglwyddo eich negeseuon i fwy o bobl. Gall y cyfryngau cymdeithasol a fforymau ar-lein helpu i gynyddu hygyrchedd i bobl ag anabledd a gallant helpu i chwalu rhwystrau i bobl a allai fel arall ei chael hi'n anodd cymryd rhan yng ngweithgareddau eich cyngor.

Gall eich cyngor ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i:

- Roi'r wybodaeth ddiweddaraf am eich digwyddiadau a'ch gweithgareddau
- Ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol
- Casglu adborth
- Dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau
- Hyrwyddo eich straeon newyddion da

**Facebook**

Gall cynghorau cymuned a thref wneud y gorau o fod ar-lein drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth. Manteision y cyfryngau cymdeithasol, fel Facebook, yw ei bod yn gymharol hawdd trefnu cyfrif a gallwch gyrraedd llawer o bobl yn gyflym heb lawer o gost. Bydd cyfran fawr o'ch cymuned eisoes ar Facebook, a byddant yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ar eu ffonau, dyfeisiau llechen a chyfrifiaduron.

**Creu tudalen Facebook ar gyfer eich cyngor**

Mae Facebook yn cynnig tri math gwahanol o gyfrif:

- Proffil - y cyfrif Facebook personol sydd gan y rhan fwyaf o bobl
- Tudalennau - ar gyfer sefydliadau, busnesau a ffigurau cyhoeddus
- Grwpiau - i gymunedau rannu diddordeb cyffredin

Er mwyn dechrau arni, bydd angen proffil Facebook personol arnoch chi. Peidiwch â phoeni, er y bydd y dudalen ar gyfer eich cyngor wedi'i chysylltu â'ch cyfrif personol chi, ni fydd unrhyw un yn gallu gweld eich cyfrif o dudalen y cyngor.

Y cyfan sy'n rhaid ichi ei wneud yw mewngofnodi i'ch cyfrif Facebook personol a chlicio ar Tudalennau, yna dilynwch y cyfarwyddiadau syml i greu tudalen eich cyngor.

Nesaf rhowch ychydig o gynnwys ar y dudalen - negeseuon am eich cyngor a ffotograffau. Efallai fod gennych ffotograffau o ddigwyddiadau blaenorol neu rai o'r ardal leol. Gofynnwch i'ch cynghorwyr, staff a phobl yn eich cymuned am syniadau ar y math o gynnwys yr hoffent ei weld ar y dudalen.

**Dywedwch wrth bobl am eich tudalen newydd**

Man cychwyn da yw gwahodd eich cydweithwyr i hoffi'r dudalen a gofyn iddyn nhw ei rhannu â'u ffrindiau. Gallwch hefyd ddefnyddio'ch gwefan ac unrhyw newyddlen,

unrhyw ddeunydd printiedig a diweddariadau e-bost i hyrwyddo'ch tudalen a chreu sylfaen graidd o gefnogwyr.

Mae'n bosibl talu am hysbysebu ar Facebook. Mae'n hawdd trefnu hyn a gallwch dargedu pobl sy'n byw yn eich ardal chi. Gallwch osod cyllideb na fydd yn cael ei gwario oni bai bod rhywun yn clicio ar eich hysbyseb.

**Faint o bobl sy'n edrych ar eich tudalen?**

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mwynhau edrych ar eu hystadegau Facebook! Bydd y ddadansoddeg hon yn eich helpu i ddeall pa mor boblogaidd yw'ch tudalen ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol ichi am eich cynulleidfa ac yn mesur llwyddiant eich gwahanol negeseuon.

**Twitter**

Os nad ydych chi'n gyfarwydd â Twitter, gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol a micro-flogio yw hwn sy'n caniatáu i ddefnyddwyr anfon a darllen negeseuon o'r enw 'trydariadau'. Mae trydariadau yn negeseuon sy'n cael eu harddangos ar dudalen proffil yr awdur a'u dosbarthu i danysgrifwyr yr awdur, sy'n cael eu galw'n ddilynwyr. Mae gan Twitter tua 330 miliwn o ddefnyddwyr misol gweithredol ac mae'n lle delfrydol i hyrwyddo'ch cyngor a blogio am weithgaredd.

Os nad ydych yn defnyddio Twitter eisoes dyma rai o'r manteision:

- Cyfathrebu'n uniongyrchol â'ch cymuned: Mae Twitter yn ffordd gyflym o gyfathrebu'n uniongyrchol â'ch dilynwyr. Gallan nhw droi atoch am gyngor a chael ateb cyflym. Mae siarad yn uniongyrchol â'ch dilynwyr yn sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill, maen nhw'n cael eu gwybodaeth neu eu hatebion ac yn ei dro byddwch chithau'n dysgu amdanyn nhw a'u hanghenion.
- Denu ymwelwyr newydd i'ch gwefan: Mae Twitter yn offeryn syml ar gyfer rhannu dolenni a chyfeirio traffig i'ch gwefan. Bydd rhannu dolenni i'ch gwefan yn denu pobl newydd sydd â diddordeb yn eich cyngor a'i weithgareddau.
- Gweld yr hyn y mae eraill yn ei ddweud: Mae Twitter yn ffordd dda o gael y newyddion lleol diweddaraf a chael barn eich cymuned am waith eich cyngor. Mae hefyd yn caniatáu ichi ymateb ar unwaith a lle bo angen, amddiffyn enw da eich cyngor.
- Monitro'r hyn y mae pobl yn ei ddweud am eich cyngor drwy gynnwys hashnod yn eich trydariad. Mae defnyddio'r symbol hashnod (#) cyn allweddair neu ymadrodd, yn caniatáu i bob trydariad a sgwrs sy'n defnyddio'r gair/ymadrodd hashnod hwnnw ymddangos yn haws mewn chwiliad Twitter. Mae hefyd yn cyfrannu at eitemau sy'n trendio ar Twitter.

Y cyfan sydd ei angen arnoch i greu cyfrif Twitter yw cysylltiad â'r Rhyngrwyd a chyfrifiadur neu ffôn symudol gyda mynediad i'r Rhyngrwyd. Mae llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar gael yma https://help.twitter.com/cy/using-twitter

Gallai eich dilynwyr Twitter fod yn derbyn y wybodaeth a'r cynnwys diweddaraf am eich cyngor, ei lwyddiannau a'r gweithgaredd sydd i ddod.

Y ffordd orau o ddysgu am Twitter yw dechrau ei ddefnyddio! Cofiwch edrych ar yr hyn y mae sefydliadau tebyg yn ei bostio er mwyn cael ysbrydoliaeth.

**Awgrym** - Cofiwch mai 280 o nodau, gan gynnwys unrhyw atalnodi, yw'r uchafswm ar gyfer trydariad. Ond gallwch greu 'edefyn' o drydariadau, sy'n golygu ychwanegu trydariad at eich neges gychwynnol, er mwyn rhoi mwy o le ichi. Cliciwch ar yr arwydd plws ar waelod pob trydariad.

**Sut mae denu dilynwyr ar Twitter?**

Crëwch eich cyfrif a dechrau postio negeseuon. Cofiwch y dylai eich negeseuon gyd-fynd â rôl eich cyngor fel sefydliad cymunedol a bod yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol i'ch cynulleidfa darged.

Dilynwch sefydliadau lleol eraill, eich cyngor sir lleol, newyddiadurwyr lleol, clybiau chwaraeon, ysgolion, eglwysi, cynghorwyr, Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol. Bydd digonedd yn dod i'r meddwl ar ôl ichi ddechrau arni.

Pan fyddwch yn trydar, tagiwch sefydliadau a dylanwadwyr lleol eraill fel eich Aelodau o'r Senedd lleol, Aelodau Seneddol, y prif gyngor a chynghorwyr sir lleol. Gallwch ychwanegu dolenni Twitter (er enghraifft @llywcymru) at eich neges, neu pan fyddwch yn ychwanegu llun gallwch dagio hyd at ddeg enw trydar.

Hoffwch negeseuon perthnasol gan sefydliadau eraill a gwnewch sylwadau arnyn nhw

Sicrhewch eich bod yn ymateb yn gyflym i unrhyw ymholiadau a gewch

Cofiwch ddefnyddio'ch sianeli cyfathrebu eraill, fel eich gwefan, eich newyddlen, eich blog a diweddariadau e-bost, i ddweud wrth eich cymuned leol am eich cyfrif Twitter.

**Awgrym** - gwnewch eich negeseuon Twitter yn fwy diddorol gyda lluniau, fideos a gifs (animeiddiadau byr, gallwch chwilio am y rhain yn syth o'ch neges Twitter) a chofiwch dagio pobl a sefydliadau, gan gynnwys eich papur newydd lleol, a allai fod â diddordeb.

**Rheoli'r cyfryngau cymdeithasol**

Mae'n hawdd i'r cyfryngau cymdeithasol fynd â llawer o'ch amser. Neilltuwch amser i wirio'ch cyfrifon er mwyn gweld a ydych wedi cael unrhyw ymholiadau neu sylwadau y mae angen ichi eu hateb. Bydd pa mor aml y byddwch yn gwneud hyn yn amrywio ar gyfer pob cyngor. Gall rhai wirio hyn awr neu ddwy, unwaith y dydd, neu unwaith neu ddwywaith yr wythnos. Penderfynwch beth sy'n briodol ac yn gymesur yn eich amgylchiadau chi. Nid oes raid ichi ymateb i bob sylw, mae rhai pobl yn hoffi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i fynegi barn ac nid ydynt yn disgwyl ateb, ond mae angen ichi ymateb yn gyflym i gwestiynau a sylwadau, hyd yn oed os mai dim ond 'hoffi' ymateb cadarnhaol yw hynny.

**Pa mor aml ddylech chi bostio negeseuon?**

Mae hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar yr hyn sydd ei angen ar eich cymuned.  Ar Facebook efallai y byddwch yn postio negeseuon ddwy neu dair gwaith yr wythnos. Mae eich trydariadau yn debygol o fod yn fyrrach ac yn fwy rheolaidd, a gallant gynnwys ail-drydar negeseuon sefydliadau lleol eraill.

Ymgysylltu â'ch cymuned, rhannu gwaith eich cyngor a gwahodd pobl leol i gymryd rhan yw'r nod. Efallai yr hoffech gyhoeddi negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol cyn cyfarfodydd y cyngor ac yn union ar eu hôl, gan annog eich cymuned i godi unrhyw faterion y dylid eu trafod, eu hysbysu am yr eitemau sydd ar yr agenda, gwahodd barn a gofyn cwestiynau i lywio'ch penderfyniadau.

**Ysgrifennu ar gyfer Eich Cynulleidfa Ar-lein**

Wrth ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa ar-lein, boed yn dudalen we, diweddariad ar Facebook neu neges ar gyfer Twitter, byddwch yn gynnil â'ch geiriau. Cadwch y wybodaeth i isafswm.

Cofiwch ddefnyddio:

- Geiriau gweithredol
- Brawddegau byr 8-15 gair
- Un syniad fesul brawddeg
- Is-benawdau
- Rhestrau o ddim mwy na saith pwynt bwled
- Dolenni gwe fel rhan o'r stori
- Llun neu ddiagram - gwnewch yn siŵr bod y rhain yn glir ac o ansawdd da
- Cadwch lygad am rywbeth newydd, gwahanol neu hynod; pwysleisiwch yr hyn sy'n anarferol am eich stori er mwyn gwneud iddi sefyll allan
- Sicrhewch ei bod yn amserol - mae'n rhaid i'ch stori ymwneud â rhywbeth sy'n digwydd yn y dyfodol agos neu rywbeth sydd wedi digwydd yn ddiweddar

**Delio â sylwadau negyddol**

Mae llawer o fanteision i'r cyfryngau cymdeithasol, ond gall sylwadau negyddol beri pryder a chymryd llawer o amser, ond peidiwch â gadael i hynny eich digalonni, mae mwy o fanteision nag anfanteision.

Os oes rhywun yn gofyn cwestiwn dilys neu wedi cael ei gamarwain, atebwch y cwestiwn neu rhowch y wybodaeth gywir iddo/iddi.  Os byddwch yn ateb yn gwrtais a phroffesiynol bydd llawer o bobl wedyn yn diolch ichi.

Y cyfan y bydd rhai pobl eisiau ei wneud fydd beirniadu, a'r enw ar y math hwn o ymddygiad yw trolio (trolling).  Nid oes rhaid ichi ateb pawb, mae ganddyn nhw hawl i'w barn.  Peidiwch â chymryd y sylwadau'n bersonol a chofiwch fod y rhai sy'n trolio yn helpu i hyrwyddo'ch negeseuon, gan nad yw'r cyfryngau cymdeithasol yn gwybod bod eich neges wedi cael sylwadau negyddol, ond mae'n gwybod bod pobl wedi dangos diddordeb ac mae hyn yn helpu'ch neges i gael ei dangos i fwy o bobl!

**Awgrymiadau**

Ar eich tudalen Facebook efallai yr hoffech gynnwys paragraff o dan yr adran Gwybodaeth Gyffredinol yn yr adran 'Amdanom Ni' yn esbonio'r amodau sy'n berthnasol i bobl sy'n postio negeseuon ar y wefan. Dyma enghraifft:

Barn unigolion yw'r sylwadau a'r negeseuon sy'n cael eu postio ar y dudalen hon ac nid ydynt yn cynrychioli barn *Cyngor Cymuned Unrhyw Le*. Byddwn yn adolygu pob sylw ac yn dileu unrhyw sylwadau amhriodol neu dramgwyddus.

## Gweithio gyda'r cyfryngau lleol

Pan fydd pobl yn dweud 'Y Cyfryngau' rydym yn aml yn meddwl am bapurau newydd, cylchgronau, radio a theledu.

Ond heddiw mae yna lawer o wahanol fathau o gyfryngau, gan gynnwys Facebook a Twitter, y mae pobl yn eu defnyddio bob dydd ac yn eu gweld fel rhan o'u bywydau bob dydd. Yn 2019 dywedodd Ofcom fod 49% o bobl yn y DU yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael newyddion. Y tair prif ffynhonnell newyddion oedd: BBC 58%, ITV 40% a Facebook 35%.

Rhaid i unrhyw stori sy'n cael ei datblygu i'w chyhoeddi gystadlu â llawer o straeon eraill. Mae hyn yn ei gwneud yn bwysicach fyth dewis y math o gyfryngau a fydd fwyaf tebygol o roi sylw i stori newyddion eich cyngor. Ar yr ochr gadarnhaol, gyda’r cyfryngau angen llenwi’r tonfeddi 24 awr y dydd, a gyda’r ystod gynyddol o blatfformau cyfryngau cymdeithasol ar y we, ni fu erioed amser gwell i roi cynnig arni.

### Camau Ymgysylltu â'r Cyfryngau

Bydd gwahanol gynghorau ar wahanol gamau o ran eu hymgysylltiad â'r 'cyfryngau' yn ei holl ffurfiau.

- Adweithiol - dim ond ymateb i ymholiadau neu sylwadau gan y cyfryngau
- Rhagweithiol - cynhyrchu eich datganiadau eich hun ar gyfer y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol
- Rheoli - Rydych yn defnyddio'r cyfryngau i fynd ati i hyrwyddo'ch gweithgareddau a rheoli negeseuon allweddol mewn ffordd wedi'i chynllunio.

Gweler Atodiad 8: Bydd Gweithgaredd 2 yn eich helpu i benderfynu ar ba gam y mae eich tîm yn gweithio ar hyn o bryd.

### Creu Cysylltiadau Cadarnhaol â'r Cyfryngau

Gallwch fod yn rhagweithiol o ran ymgysylltu â'r cyfryngau a meithrin cysylltiadau cadarnhaol â'r cyfryngau, drwy ddilyn y camau hyn:

*Cam 1*: Ymchwiliwch i'r cyfryngau sy'n gweithredu yn eich ardal chi. Ffordd dda o ddechrau arni yw chwilio Google News am sefydliadau lleol, er enghraifft eich

ysgolion lleol a'ch cyngor sir, a gweld pa gyfryngau a newyddiadurwyr sy'n ysgrifennu amdanynt.

*Cam 2*: Mae angen ichi wybod pwy yw'ch cysylltiadau cyfryngau lleol a ble maen nhw, felly chwiliwch am fanylion cyswllt papurau newydd lleol, sianeli teledu, radio a radio cymunedol. Dylech allu dod o hyd i'r rhain ar-lein neu drwy eu ffonio. Neu prynwch gopïau o'ch papurau newydd lleol ac astudiwch y rheini - bydd hyn yn rhoi darlun cyffredinol da ichi o'r math o straeon sy'n cael eu hargraffu, yn ogystal â rhoi enwau eu newyddiadurwyr ichi. A gall y dudalen lythyrau fod yn ddadlennol iawn am bryderon pobl leol.

Yn olaf, defnyddiwch y wybodaeth i baratoi rhestr o gysylltiadau'r cyfryngau ar gyfer ardal eich cyngor. Isod mae enghraifft o sut y gallech chi drefnu eich rhestr gyswllt.

| **Herald Tref Unrhyw Le** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd** | **Enw** | **Rhif ffôn** | **Cyfeiriad E-bost** | **Cyfrif Twitter** |
| Desg newyddion | | | | |
| Golygydd newyddion | | | | |
| Gohebydd ardal Tref Unrhyw Le | | | | |
| | | | | |
| **Gorsaf Radio Gymunedol Tref Unrhyw Le** | | | | |
| **Teitl y Swydd** | **Enw** | **Rhif ffôn** | **Cyfeiriad E-bost** | **Cyfrif Twitter** |
| Rheolwr yr Orsaf | | | | |
| Desg newyddion | | | | |
| | | | | |

*Cam 3*: Cyflwynwch eich hun a gwnewch y cyswllt cyntaf hwnnw â'r wasg leol. Y ffordd orau yw ffonio a gofyn at bwy y dylech anfon datganiad i'r wasg. Efallai mai'r golygydd newyddion, neu'r gohebydd lleol yn eich ardal chi fydd hwnnw neu mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau gyfeiriad e-bost cyffredinol ar gyfer y ddesg newyddion.

*Cam 4*: Ceisiwch ddarganfod y dyddiad cyhoeddi a'r dyddiadau cau ar gyfer eich papur lleol. Y mwyaf o amser y byddwch chi'n ei roi iddyn nhw, y mwyaf tebygol yw hi y bydd eich stori'n cael ei chynnwys, a pheidiwch â digalonni os nad yw'ch stori'n cael sylw bob tro.

**Awgrym** - Ystyriwch 'gadw' eich datganiad i'r wasg tan y bydd llai o gystadleuaeth gan straeon eraill, er enghraifft, ychydig cyn gŵyl y banc, ond cofiwch fod gan straeon oes silff yn aml.

*Cam 5*: Ar ôl ichi ddechrau siarad â newyddiadurwyr, cadwch mewn cysylltiad â nhw fel y gallwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eich gweithgareddau a chynhyrchu sylw parhaus yn y cyfryngau.

*Cam 6*: Bydd newyddiadurwyr bob amser yn cofio sut maen nhw'n cael eu trin, felly peidiwch â dim ond siarad â nhw pan fydd gennych stori newyddion dda. Os byddan nhw'n cysylltu â chi gydag ymholiad, rhowch flaenoriaeth i anfon ateb atyn nhw cyn

gynted â phosibl. Os byddwch yn eu trin yn dda, byddwch yn meithrin perthynas dda gyda nhw.

*Cam 7*: Sicrhewch eich bod yn monitro unrhyw sylw yn y cyfryngau a gewch a chadwch ffolder pigion er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.

**Dod â'ch Newyddion yn Fyw**

Mae straeon cadarnhaol yn werthfawr iawn ar gyfer newyddion ac felly bydd digwyddiadau a phrosiectau eich cyngor bob amser o ddiddordeb, yn enwedig gan y bydd gan eich straeon agwedd leol gref ac elfen o ddiddordeb dynol gan y byddant yn cynnwys y gymuned leol.

Dyma rai syniadau ar gyfer gwneud y gorau o'ch stori:

- Pan fydd gennych stori, crynhowch y manylion allweddol mewn datganiad newyddion byr, gan egluro beth sy'n digwydd, pryd a ble
- Meddyliwch yn greadigol er mwyn denu sylw at eich stori
- Ewch ar drywydd yr elfen o ddiddordeb dynol lleol
- Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt bob amser
- Anfonwch eich datganiad i'r wasg at eich cysylltiadau yn y cyfryngau
- Dilynwch hynny gyda galwad ffôn i drafod eich stori
- Gwahoddwch y cyfryngau i fynychu'r gweithgaredd neu'r digwyddiad rydych chi'n ei gynllunio
- Gwahoddwch bwysigion neu enwogion lleol i ymweld â'ch gweithgareddau neu ddigwyddiadau
- Ychwanegwch apêl weledol ar ffurf lluniau neu ddarluniau. Cofiwch y gallai cyfraith hawlfraint fod yn berthnasol i ddeunyddiau ysgrifenedig a gweledol a geir ar-lein.
- Tynnwch luniau o ansawdd uchel o'r digwyddiad a'u hanfon at y cyfryngau. Efallai y bydd papurau lleol hefyd eisiau anfon eu ffotograffydd eu hunain
- Paratowch gyfweliad byr, anffurfiol a/neu ddyfyniadau i'r cyfryngau.

**Awgrymiadau ar gyfer cyfweliad:**

- Cadwch bethau'n syml: crynhowch eich neges yn dair brawddeg fer
- Ceisiwch ymarfer yr hyn rydych chi am ei ddweud ymlaen llaw
- Cadwch at y pwyntiau rydych chi am eu cyfleu

**Awgrymiadau ar gyfer Ysgrifennu Datganiad Newyddion**

Os hoffech rannu'ch newyddion â'ch cyfryngau lleol, bydd angen ichi ddrafftio datganiad i'r wasg. Mae fformat penodol i ddatganiad i'r wasg er mwyn sicrhau bod

yr holl wybodaeth angenrheidiol sydd ei hangen ar newyddiadurwr yn cael ei chynnwys. Mae newyddiadurwyr yn cael eu bombardio â datganiadau i'r wasg, felly mae angen i'ch un chi sefyll allan er mwyn cael y cyfle gorau o gael ei gyhoeddi. Hyd yn oed os ydych yn hyrwyddo'ch stori drwy blatfformau cyfryngau cymdeithasol, mae defnyddio'r fformat datganiad i'r wasg yn darparu dull strwythuredig.

Gweler Atodiad 2: Templed datganiad newyddion.

- Dechreuwch gyda theitl bachog, byr. Sicrhewch fod yr agwedd leol yn y pennawd er mwyn apelio at y gymuned leol.
- Sicrhewch bod eich ffeithiau'n gwir a'u bod yn cynnwys:
    - Pwy neu beth yw pwrpas eich stori - mae erthyglau o ddiddordeb dynol fel arfer yn fwy atyniadol.
    - Beth sy'n digwydd?
    - Ble wnaeth e ddigwydd/ble bydd e'n digwydd?
    - Pryd mae'n mynd i ddigwydd/pryd ddigwyddodd e?
    - Pam mae'n digwydd/pam ddigwyddodd e?
    - Faint o bobl ddaeth i'r gweithgaredd?
    - Unrhyw ystadegau perthnasol eraill.
    - Sut y gall pobl gael mwy o wybodaeth neu gymryd rhan?
- Canolbwyntiwch ar yr hyn sydd gan eich 'stori' i'w gynnig i eraill a'i hysgrifennu o safbwynt y darllenydd, y gwrandäwr neu'r gwyliwr. Peidiwch â defnyddio jargon a chofiwch egluro acronymau.
- Defnyddiwch ddyfyniadau gan un o'r bobl sy'n gysylltiedig â'r stori, gwnewch yn siŵr eu bod wedi rhoi eu caniatâd cyn ichi ddefnyddio'r dyfyniad. Cadwch at brotocolau diogelu bob amser (gan gofio rhannu gwybodaeth am blant neu bobl fregus eraill).
- Cynhwyswch ffotograff neu awgrymwch y byddai'ch stori'n gyfle da i dynnu lluniau. Os ydych yn cynnwys eich ffotograff eich hun gwnewch yn siŵr bod y bobl yn y llun wedi rhoi eu caniatâd iddo gael ei gyhoeddi. Rhowch gapsiwn bob amser yn dweud ble y cafodd ei dynnu a phwy sydd yn y ffotograff. (Gweler yr adran 'Defnyddio Delweddau i ddal sylw').
- Ychwanegwch eich manylion cyswllt at eich datganiad i'r wasg bob amser
- Os yw ar gael, dylech gynnwys gwybodaeth gefndir am eich stori gan fod hyn yn helpu i roi'r cyd-destun. Cyfeirir at hyn fel 'Nodiadau i Olygyddion' a chânt eu hychwanegu ar ddiwedd y datganiad newyddion ar ôl eich manylion cyswllt.

**Awgrym** - Mae'n ddefnyddiol cynnwys paragraff byr bob amser yn egluro'r hyn y mae eich cyngor yn ei wneud. Enghraifft:

Mae Cyngor Cymuned 'Unrhyw Le' yn rhan o lefel llawr gwlad y llywodraeth yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli cymunedau 'Unman, Arall a Rhywsut'. Mae'r cyngor yn cynrychioli pobl 'Unrhyw Le', gan ymateb i anghenion lleol a hyrwyddo

buddiannau cymunedol. Rydym yn gweithio gyda Chyngor Sir 'Rhywle' i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol ac i gynnal cymuned lewyrchus a bywiog i'n preswylwyr. Mae Cyngor Cymuned 'Unrhyw Le' yn darparu rhandiroedd cymunedol Heol 'Pentref', meysydd chwarae 'Comin' a 'Glan yr Afon', y neuadd 'gymunedol' a chanolfan gymunedol 'Unrhyw Le', ac yn gofalu amdanynt.

- Prawf-ddarllenwch eich datganiad i'r wasg. Cadwch gopi o'ch stori bob amser - wyddoch chi byth pryd y bydd angen ichi gyfeirio ati eto.
- Os nad yw'r datganiad i'r wasg i'w gyhoeddi ar unwaith, rhowch embargo arno a nodwch yr amser y gellir ei wneud yn gyhoeddus. Ar ôl anfon neu gyhoeddi eich datganiad i'r wasg, anfonwch neges ddilynol yn gwirio ei fod wedi cyrraedd ac a oes diddordeb mewn cyhoeddi'r stori.

**Ysgrifennu Straeon Gwych am Eich Cyngor**

P'un a ydych yn ysgrifennu erthygl am newyddion, gweithgareddau neu gyflawniadau eich cyngor ar gyfer eich papur newydd lleol neu'ch gwefan, mae'r hanfodion yr un fath.

**Creu Stori Dda**

Mae erthygl dda yn rhywbeth y mae'r darllenydd eisiau ei ddarllen neu'n cynnwys gwybodaeth y mae angen iddo wybod amdani. Drwy ddefnyddio iaith glir a chywair priodol, byddwch yn cyfleu eich neges yn gliriach ac mewn ffordd fwy cyfeillgar. Dylech bob amser gael syniad clir o'r hyn rydych chi am i'r darllenydd ei wybod a gwneud y wybodaeth mor gryno a chywir â phosibl.

Pan fyddwch yn ysgrifennu'r erthygl, defnyddiwch y pum cwestiwn (pwy, beth, ble, pryd a pham - gweler yr adran Rheoli Eich Neges) a cheisiwch ddenu sylw'r darllenydd yn yr ychydig frawddegau cyntaf. Mae ysgrifennu pennawd gwych yn hanfodol os ydych chi am ddal diddordeb eich darllenydd. Os bydd gormodedd o wybodaeth, efallai mai dim ond cymryd cip ar y pennawd wnaiff y darllenydd cyn symud ymlaen. Mae'n hanfodol bod eich pennawd yn dal ei sylw ac yn ei annog i ddarllen y stori.

Anelwch at 300 o eiriau ar gyfer stori fer neu gyhoeddiad ar gyfer papur newydd, a hyd at 1500 o eiriau ar gyfer erthygl cylchgrawn neu adolygiad o ddigwyddiad.

Mae awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu'n effeithiol yn cynnwys:

- Gwneud nodyn o'r pwyntiau rydych chi am eu gwneud mewn trefn resymegol
- Defnyddio geiriau byr lle bo hynny'n bosibl
- Defnyddio Saesneg/Cymraeg bob dydd
- Osgoi jargon ac esbonio unrhyw dermau technegol bob amser (os oes gwirioneddol raid ichi eu defnyddio)
- Cadw hyd y frawddeg i rhwng 15 ac 20 o eiriau ar gyfartaledd
- Cadw at un prif syniad ym mhob brawddeg

Bydd dilyn yr awgrymiadau hynny yn gwneud eich erthygl yn hawdd ei darllen.

**Defnyddio dyfyniadau**

Mae ychwanegu dyfyniadau yn ffordd dda o gadw momentwm stori ond mae paratoi yn hanfodol wrth gynnal cyfweliad neu ddod o hyd i ddyfyniad.

Dychmygwch eich bod chi'n ysgrifennu stori newyddion am ddigwyddiad 'Siopa'n Lleol' diweddar a'ch bod eisiau dyfyniadau gan fasnachwyr lleol am y digwyddiad.

Bydd angen ichi:

- Benderfynu ar y cwestiynau y mae angen ichi eu gofyn er mwyn cael y wybodaeth rydych chi ei heisiau.
- Gofyn cwestiynau byr, clir a chryno.
- Bod yn gyfeillgar, meddwl sut mae'r sawl sy'n cael ei gyfweld yn teimlo, gall fod yn nerfus.
- Dechrau gyda chwestiwn hawdd.
- Adeiladu'n raddol at y cwestiynau pwysig.
- Crynhoi'r camau nesaf.

Fe'ch cynghorir i:

- Ddarllen y dyfyniad yn ôl i'r person.
- Ysgrifennu'r dyfyniad fel y gall ei ddarllen a'i newid os oes angen.
- Gofyn iddo lofnodi i ddweud ei fod yn cytuno i'r union eiriad.

Gweler Atodiad 3: Ffurflen Gydsynio i Gyfweleion

**Gwirio ffeithiau**

Efallai yr hoffech adael i'r rhai sy'n ymwneud â pharatoi'r stori gael amser i'w darllen ac awgrymu unrhyw welliannau. Gofynnwch i gydweithiwr ddarllen y stori bob amser a rhoi adborth, bydd par o lygaid ffres yn amhrisiadwy. Yn olaf, prawf-ddarllenwch y stori, mae'n cymryd amser ond mae'n hanfodol osgoi gwallau a allai greu embaras. Os yn bosibl, defnyddiwch fwy nag un person i brawf-ddarllen.

**Llunio Astudiaeth Achos**

Mae astudiaethau achos yn helpu i ddod â stori yn fyw a gallant roi siawns well o lawer i'ch stori gael sylw gan y cyfryngau.

Wrth baratoi astudiaeth achos, meddyliwch am yr hyn sy'n gwneud eich gweithgaredd yn wirioneddol ddiddorol a pherthnasol. Cofiwch gynnwys:

- Teitl diddorol
- Cyflwyniad; beth neu bwy ydych chi'n eu proffilio?
- Trosolwg byr o'r prosiect
- Pethau a weithiodd yn dda
- Sut y llwyddwyd i oresgyn heriau
- Dyfyniadau a phethau sy'n ddeniadol i'r llygad - ffotograffau, graffeg a dylunio.

**Defnyddio Delweddau i Ddal Sylw**

Wrth edrych drwy bapur newydd neu gylchgrawn mae sylw'r darllenydd yn aml yn cael ei ddenu at ffotograff, darlun neu gartŵn yn gyntaf, yna'r pennawd, ac yn olaf efallai y byddan nhw'n darllen y stori. Mae defnyddio ffotograff bywiog, graffig neu weledol yn dod â stori yn fyw ac yn aml mae'n helpu i gael eich stori yn y wasg a sylwi arni.

Efallai y bydd cynnig cyfle da i dynnu lluniau yn annog y wasg i roi sylw i'ch stori. Os bydd gohebydd yn gofyn am anfon ffotograffydd neu griw ffilm i ddigwyddiad neu i roi sylw i stori, sicrhewch eich bod ar gael. Maen nhw'n gwybod beth fydd y newyddiadurwr yn chwilio amdano a beth mae eu darllenwyr neu eu gwylwyr yn ei hoffi, felly byddwch yn hyblyg ynglŷn â sut maen nhw am dynnu'r llun neu wneud y ffilm.

Os na all y gohebydd anfon ffotograffydd neu griw ffilm i ddigwyddiad, tynnu eich lluniau digidol o ansawdd uchel eich hun yw'r opsiwn gorau wedyn. Bydd yr awgrymiadau canlynol yn eich helpu i dynnu a dewis y llun mwyaf deniadol:

- Edrychwch ar y papurau newydd a'r cylchgronau rydych chi'n eu targedu i weld pa fath o luniau maen nhw'n eu defnyddio'n rheolaidd
- Rhaid i unrhyw ffotograff a gyflwynwch fod o safon dda
- Gwiriwch a ydyn nhw'n hapus i dderbyn delweddau digidol ar e-bost
- Meddyliwch am eich stori a chymerwch amser i drefnu'r llun
- Llenwch y ffrâm gydag wynebau neu weithgaredd
- Gwiriwch fod y llun yn glir - dim postyn lamp yn dod allan o bennau pobl!
- Cofiwch gael caniatâd i gyhoeddi'r ffotograff gan y rhai sydd yn y lluniau

  (Gweler Atodiad 4 - Ffurflen gydsynio ar gyfer ffotograffau)
- Ysgrifennwch gapsiwn cofiadwy
- Gwnewch nodyn o enwau pobl, a theitlau/sefydliad swyddi os yw'n briodol, o'r chwith i'r dde.
- Anfonwch y llun gyda'r datganiad newyddion

## Cynhyrchu cyhoeddiadau proffesiynol

Mae cyfathrebu ar-lein yn ffordd effeithlon o ddweud wrth eich cymuned am eich gwaith, gan fyfyrio ar yr hyn rydych chi wedi'i gyflawni, a'r hyn yr hoffech chi ei ddatblygu yn y dyfodol.

Gall cyhoeddiadau wedi'u hargraffu roi'r neges yn uniongyrchol yn nwylo pobl leol. Mae argraffu yn costio mwy na chyfathrebu ar-lein, ond os byddwch yn cynllunio'n ofalus byddwch yn gallu cynhyrchu newyddlenni, posteri a thaflenni mewn ffordd gosteffeithiol.

**Newyddlenni**

Efallai y byddwch yn penderfynu bod eich cyngor a'ch cymuned leol yn cynhyrchu digon o newyddion i warantu newyddlen reolaidd.

Boed yn newyddlen wedi'i hargraffu neu'n un electronig, mae hyn yn rhywbeth sy'n cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu'n rheolaidd - er enghraifft yn wythnosol, yn fisol neu'n chwarterol. Mae newyddlenni'n cynnwys newyddion a manylion digwyddiadau i ddod ynghyd â gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymholiadau cyffredinol. Mae angen i'r testun fod yn fyr a chael ei ategu gan ddyfyniadau, lliw, ffotograffau neu ddarluniau.

Cyn ichi fwrw ymlaen â newyddlen, ystyriwch:

- A oes angen newyddlen ar eich cyngor?
- Beth ydych chi am ei gyflawni gyda newyddlen?
- Pa mor aml y bydd yn cael ei chynhyrchu? Mae angen ichi ei chyhoeddi'n rheolaidd, hyd yn oed os mai dim ond dwywaith y flwyddyn yw hynny.
- Pwy yw eich cynulleidfa darged?
- A fydd y newyddlen yn cael ei hargraffu neu ei anfon drwy e-bost fel e-newyddlen?
- Ym mha iaith/ieithoedd y bydd ar gael? Beth yw'r gost ychwanegol o'i chyfieithu?
- A fydd angen ichi sicrhau ei bod ar gael mewn print bras a/neu braille?
- Os caiff ei hargraffu, ble a sut y bydd yn cael ei dosbarthu?
- Os ydych yn cynllunio e-newyddlen, sut y bydd pobl yn tanysgrifio a sut y byddwch chi'n sicrhau eich bod yn cadw at reoliadau GDPR?
- Beth fydd y costau (ariannol ac amser) ar gyfer cynhyrchu'r newyddlen o gymharu â'r manteision?

Os penderfynwch fwrw ymlaen â'ch newyddlen dylech:

- Benderfynu ar nifer y tudalennau a golygu'r copi yn unol â hynny.

- Creu cynnwys: straeon newyddion ac eitemau sy'n berthnasol i'ch cyngor a'ch cymuned leol.
- Cytuno ar arddull tŷ ar gyfer testun a ddefnyddir mewn deunyddiau at ddefnydd y gymuned. Dewis un neu ddwy ffont (un ar gyfer y prif destun ac un ar gyfer penawdau). Ffontiau yw'r math o 'ffurfdeip' a ddefnyddir i arddangos testun, rhifau a chymeriadau.

Bydd y ffont(iau) y byddwch yn eu dewis yn effeithio ar ba mor ddarllenadwy yw eich newyddlen. Er mwyn sicrhau bod eich dogfen mor ddarllenadwy â phosibl dylech:

- Ddewis ffontiau sylfaenol, syml, hawdd eu darllen. Yn gyffredinol, ffontiau sans serif fel Arial a Tahoma yw'r rhai cliriaf i'w darllen. Ffontiau plaen yw'r rhain, heb y 'cynffonau' a welir ar ffontiau serif.
- Defnyddio nifer cyfyngedig o ffontiau
- Osgoi meintiau ffont bach. Defnyddiwch isafswm maint ffont o 12 pwynt
- Cyfyngu ar y defnydd o amrywiadau ffont fel llythrennau *italig*, a PHRIFLYTHRENNAU
- Defnyddio print **trwm** yn gynnil a dim ond tynnu sylw at ychydig eiriau yn hytrach na brawddeg neu baragraff cyfan
- Defnyddio penawdau a gofod gwyn i bwysleisio'ch pwyntiau allweddol gan fod tudalennau sy'n cynnwys llawer o destun yn gwneud i'r darllenydd golli diddordeb.

Sicrhewch fod pawb sy'n cyfrannu at y newyddlen yn gwybod am y canllaw arddull ac yn ei ddefnyddio.

Paratowch eich rhestr ddosbarthu.

**Awgrymiadau**

Edrychwch ar newyddlenni cymunedau eraill i gael syniadau am gynnwys a fformat gan fod angen i'ch newyddlen apelio at gynulleidfa debyg ond rhaid iddi sefyll allan hefyd.

Ceisiwch osgoi papur sgleiniog gan ei fod yn ddrytach ac mae'r sglein gormodol yn ei wneud yn anoddach ei ddarllen i bobl â nam ar eu golwg.

Gweler Atodiad 5 - Hygyrchedd

**Taflenni a Phosteri**

Mae taflenni a phosteri yn offer hyrwyddo poblogaidd a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiad neu weithgaredd. Defnyddir posteri i hysbysu grwpiau

mawr o bobl a chânt eu harddangos yn gyhoeddus. Rhoddir taflenni i unigolion eu darllen.

Ymhlith yr opsiynau dosbarthu ar gyfer taflenni mae:

- Gadael sypiau mewn mannau cyhoeddus, er enghraifft llyfrgelloedd, clybiau, siopau papurau newydd, siopau, canolfannau cynghori, eich tafarn leol, addoldai, derbynfeydd y cyngor, canolfannau cymunedol a hamdden.
- Eu dosbarthu o dŷ i dŷ, os oes gennych gyllideb i wneud hynny neu wirfoddolwyr parod.

Gall treulio amser yn penderfynu pam mae eich cyngor yn ystyried argraffu taflen neu boster, arbed amser, ymdrech ac arian. Meddyliwch:

- Beth yw pwrpas y daflen neu'r poster?
- Pa wybodaeth ydych chi am ei rhannu?
- A oes angen i'ch neges fod yn rhan o ymgyrch gyfathrebu ehangach?
- Pwy yw eich cynulleidfaoedd targed?
- A oes angen cyfieithu'r taflenni a'r posteri i ieithoedd eraill?
- Sut y byddwch yn sicrhau eu bod yn cyrraedd eich cynulleidfa?
- A fyddant yn cyrraedd grwpiau lleiafrifol?

Mae dyluniad ac eglurder neges yn hanfodol bwysig gan y bydd angen i'ch taflen neu'ch poster ddal sylw'r darllenydd. Peidiwch â cheisio dweud eich stori gyda llawer o ysgrifennu a gormod o liwiau a ffontiau, gan y bydd hyn yn gwanhau neu hyd yn oed yn cuddio'ch neges. Dylech ddibynnu ar ddelweddau a graffeg o ansawdd da i greu argraff. Ni fydd cymryd ffeil graffig fach o'ch logo neu ffotograff bach a'i chwyddo yn gweithio gan y bydd yn effeithio ar yr ansawdd. Adolygwch eich proflenni bob amser i sicrhau bod popeth yn edrych yn berffaith cyn ichi ei anfon i'w argraffu.

**Awgrymiadau**
Cofiwch gynnwys manylion cyswllt ar eich taflenni a phosteri bob amser.

Gofynnwch i'r bobl sy'n mynychu'ch digwyddiad sut y gwnaethon nhw ddod i wybod amdano. Fel hyn, gallwch fonitro effeithiolrwydd gwahanol ddulliau cyfathrebu.

**Cydbwyso'r Gyllideb**

Wrth gyllidebu ar gyfer newyddlen, taflenni neu bosteri, cadwch mewn cof y costau am:

- Reoli'r broses
- Amser staff ar gyfer ysgrifennu deunydd
- Ffotograffiaeth a gwaith dylunio
- Argraffu
- Dosbarthu/postio

**Awgrymiadau**
Gofynnwch am ddyfynbrisiau gan argraffwyr bob tro yn unol â rheoliadau ariannol eich cyngor a chofiwch gynnwys yr amser argraffu yn eich amserlen.

Byddwch yn fanwl gywir wrth ofyn i argraffwyr am amcangyfrif, penderfynwch ymlaen llaw ar fanylion fel dyddiad dosbarthu, nifer y copïau, math/ansawdd y papur, lliw, a yw'r gwaith plygu wedi'i gynnwys yn y pris. Mae'r rhan fwyaf o argraffwyr yn barod iawn eu cymorth a byddan nhw'n eich helpu gyda'r manylion hyn os ydych chi'n newydd i'r maes prynu print.

Mae argraffu mewn lliw llawn bob amser yn ddrytach, ond os ydych chi eisiau tua 500 i 1,000 o gopïau bydd argraffu digidol yn helpu i leihau'r gost. I wrthbwyso'r costau efallai yr hoffech ymchwilio i nawdd neu hysbysebion y bydd busnesau lleol neu randdeiliaid allweddol yn talu amdanynt.

**Camau Cynhyrchu**

Ar ôl ichi ddewis yr argraffydd ar gyfer eich cyhoeddiad, bydd angen eich mewnbwn arnynt ar wahanol adegau yn ystod y broses gynhyrchu i sicrhau bod y cynnyrch gorffenedig yn cael ei gwblhau ar amser ac yn diwallu eich anghenion. Y camau allweddol yw:

- Dyfynbris
- Dyfarnu'r contract
- Briff - pan fyddwch yn dweud wrthyn nhw beth rydych chi ei eisiau ac maen nhw'n eich helpu i wneud y dewisiadau mwyaf cost-effeithiol
- Cymeradwyo dyluniadau
- Cymeradwyo/diwygio testunau drafft
- Cymeradwyo proflenni laser du a gwyn o destun wedi'i gysodi ar nifer o gamau y cytunwyd arnynt
- Gwirio a chymeradwyo proflen liw yr argraffydd (os oes angen) o'r cyhoeddiad llawn
- 'Cymeradwyo' y ddogfen er mwyn argraffu a dosbarthu'r holl gopïau

**Awgrymiadau**
Gweithiwch am yn ôl bob amser o'r dyddiad y mae angen i'ch taflen neu'ch poster fod ar gael i'ch cynulleidfa darged (eich dyddiad dosbarthu targed) i greu eich llinell amser cynhyrchu. A chofiwch ychwanegu amser ar gyfer unrhyw broblemau a allai godi.

Os byddwch yn defnyddio gwirfoddolwyr i ddosbarthu a danfon eich cyhoeddiad, caniatewch ddigon o amser.

Er mwyn gwneud y mwyaf o oes silff eich cyhoeddiad, ceisiwch osgoi rhoi dyddiad penodol ar y cyhoeddiad, er enghraifft defnyddiwch 'Rhifyn y Gaeaf' yn hytrach na nodi mis.

## Hyrwyddo Digwyddiadau

Gall digwyddiadau fod yn ffordd wych o greu ymdeimlad o gymuned, dod i adnabod pobl leol a dweud mwy wrthyn nhw am eich cyngor.

Efallai y bydd eich cyngor cymunedol eisoes yn cynnal digwyddiadau rheolaidd fel:

- Digwyddiadau ymgynghori a chyfarfodydd cyhoeddus eraill
- Digwyddiad Sul y Cofio
- Digwyddiad siopa'n lleol
- Sioe gŵn gymunedol
- Sesiwn casglu sbwriel gymunedol
- Marchnad ffermwyr
- Cynnau goleuadau Nadolig
- Canu carolau

Dyma rai syniadau ymarferol ar gyfer rhoi gwybod i'ch cymuned am eich digwyddiad:

- Cyn ichi wneud unrhyw beth arall, ychwanegwch wybodaeth am eich digwyddiad ar eich gwefan, gan ei roi mewn lle amlwg ar yr hafan.

- Ystyriwch anfon 'dyddiad i'r dyddiadur' at bobl allweddol neu gysylltiadau cyfryngau yr hoffech iddynt fynychu.

Gweler Atodiad 6 - Enghraifft o ddyddiad i'r dyddiadur

- Rhowch bosteri yn yr ardaloedd lle rydych chi'n gwybod y bydd y bobl rydych chi am eu denu yn eu gweld, fel canolfannau hamdden, canolfannau ieuenctid

a chanolfannau cymunedol. Peidiwch ag anghofio eich hysbysfyrddau cymunedol a drws neu ffenestri eich swyddfa.

- Crëwch daflen neu gerdyn post y gellir ei rannu mewn mannau cymunedol prysur fel canolfannau siopa, llyfrgelloedd neu'r sinema leol

- Cysylltwch â phapurau newydd a gorsafoedd radio lleol ynglŷn â rhoi sylw i stori sy'n gysylltiedig â'ch digwyddiad, neu ychwanegu hysbysiad ar eu tudalen digwyddiadau.

- Edrychwch ar wefannau cymunedol lleol a rhwydweithiau cymdeithasol gan fod y rhain yn aml yn cynnwys newyddion a manylion digwyddiadau, ac efallai y byddan nhw'n fodlon helpu i hyrwyddo'ch digwyddiad. Hefyd, efallai y bydd eich prif gyngor yn gallu sôn am eich digwyddiad ar eu gwefan a'u rhwydweithiau cymdeithasol.

Cofiwch ddweud:

- A yw eich digwyddiad yn rhad ac am ddim
- Beth yn union mae'r gweithgaredd neu'r cyfle yn ei olygu
- Beth yw nod y digwyddiad
- Ble a phryd mae'n digwydd
- Ble i gael mwy o wybodaeth

**Ar ôl y Digwyddiad**

Mae cadw cofnod o unrhyw sylw yn y cyfryngau yn ffordd dda o atgoffa pobl am eich digwyddiad. Mae myfyrio ar sut aeth pethau yn eich helpu i werthuso a yw'ch gweithgaredd wedi bod yn llwyddiannus.

Beth am ysgrifennu astudiaeth achos? Sicrhewch fod eich astudiaeth achos yn cynnwys gwybodaeth fel:

- Disgrifiad byr o'r digwyddiad
- Pam y digwyddodd
- Beth ddigwyddodd
- Faint o bobl a gymerodd ran
- Pwy oedd yn cymryd rhan (gan gynnwys unrhyw westeion arbennig)

Gallwch hefyd gynnwys sylwadau a dyfyniadau gan bobl a ddaeth draw a lluniau o'r digwyddiad.

## Cyfathrebu â'r gymuned gyfan

Ydych chi'n cyfathrebu â'ch cymuned gyfan? Neu a oes rhai grwpiau y mae angen ichi eu cynnwys ac ymgysylltu mwy â nhw, er enghraifft pobl ifanc neu grwpiau lleiafrifol?

Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi ystyried:

- Pa grwpiau nad ydyn nhw'n ymgysylltu â'r cyngor?
- Beth sydd gan unigolion yn y grwpiau hyn yn gyffredin? Er enghraifft, yr ieithoedd maen nhw'n eu siarad, eu hoedran, rhyw, anabledd dysgu, diwylliant a chrefydd.
- Pa mor fawr yw pob grŵp?
- Ydyn nhw'n cwrdd yn anffurfiol neu'n ffurfiol? Os felly, ble?

Bydd peth gwaith ymchwil yn datgelu'r rhesymau dros ymgysylltiad gwael â grwpiau penodol. Efallai na fydd sianel gyfathrebu sy'n effeithiol gydag un grŵp yn gweithio gydag un arall, neu o reidrwydd gyda grŵp tebyg mewn ardal arall. Felly mae'n helpu i ganfod:

- Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i gyfathrebu?
- Pa mor effeithiol fu'r rhain?
- Pwy arall sy'n cysylltu â'r grwpiau hyn a sut?
- Os yw grŵp y mae gennych ddiddordeb yn ei gyrraedd eisoes yn defnyddio rhwydwaith gwybodaeth sefydledig, ac, os felly, sut allech chi fanteisio arno? Er enghraifft, efallai bod grŵp ieuenctid lleol neu glwb prynhawn ar gyfer pobl wedi ymddeol ar gael.
- Pwy yw'r unigolion allweddol y mae angen ichi weithio gyda nhw?
- Beth yw'r pwyntiau cyswllt amgen fel y gwasanaeth ieuenctid, eich prif swyddog cydraddoldeb cyngor neu hyrwyddwr person hŷn?

Ar ôl cysylltu â'ch grŵp(iau) targed, bydd darlun cliriach yn dod i'r amlwg o sut mae unigolion yn hoffi derbyn gwybodaeth, fel ar lafar gwlad, ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar y radio, ac yna gellir cynllunio'r cyfathrebu yn unol â hynny.

Cofiwch - nid yw un dull yn addas i bawb felly dylid targedu dulliau cyfathrebu yn dibynnu ar bob grŵp a natur y wybodaeth sy'n cael ei rhannu. Ymhlith y syniadau ymarferol ar gyfer cyfathrebu â phob grŵp, mae:

- Defnyddio cyn lleied o eiriau â phosibl
- Defnyddio delweddau i rannu'ch stori
- Osgoi iaith ac arferion gwahaniaethol
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau priodol ar gyfer unigolion â nam ar eu golwg, er enghraifft print bras, braille, papur lliw

- Defnyddio iaith blaen ac osgoi jargon
- Darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol priodol
- Peidio â gwneud rhagdybiaethau ynghylch mynediad i'r rhyngrwyd, neu brofiad o ddefnyddio'r rhyngrwyd
- Bod yn rhagweithiol - cysylltwch â nhw yn hytrach nag aros i bobl gysylltu â chi

Wrth gynllunio digwyddiad ar gyfer grŵp penodol:

- Dewiswch amser sy'n realistig i'ch grŵp targed
- Sicrhewch fod eich lleoliad yn hygyrch, yn ddiogel ac yn groesawgar gydag arwyddion priodol - amlieithog os oes angen
- Darparwch gyfieithwyr os bydd angen
- Trefnwch system ddolen, dehonglwyr iaith arwyddion a/neu ddarllenwyr gwefusau ar gyfer pobl â nam ar eu clyw
- Dewiswch leoliad sy'n hawdd ei gyrraedd
- Cynigiwch gyfleuster gofal plant os yw'n briodol i'r grŵp targed
- Darparwch luniaeth - gall rhannu sgwrs dros baned o de neu ddiod feddal fod yn ffordd wych o sefydlu cyswllt

Gweler Atodiad 7: Offeryn cynllunio ar gyfer cyfathrebu â grwpiau.

## Diolch yn fawr

Diolch yn fawr am gymryd yr amser i ddarllen y canllaw hwn. Mae cyfathrebu da yn cymryd amser ac ymdrech, ond bydd gweithgareddau cyfathrebu wedi'u cynllunio yn gwella'ch perthynas â'ch cymuned leol yn sylweddol, a byddwch hefyd yn helpu i wella enw da cynghorau cymuned a thref ledled Cymru a'r ddealltwriaeth ohonynt.

# Cysylltu â'ch cymuned leol

## Atodiadau

1. Archwiliad cyfathrebu
2. Templed datganiad newyddion
3. Ffurflen gydsynio i gyfweleion
4. Ffurflen gydsynio ar gyfer ffotograffau
5. Hygyrchedd a Dwyieithrwydd

6. Templed dyddiad i'r dyddiadur
7. Offeryn cynllunio ar gyfer cyfathrebu â grwpiau anodd eu cyrraedd
8. Gweithgareddau gweithdy

## Atodiad 1: Archwiliad cyfathrebu

Edrychwch ar y rhestr isod o ddulliau cyfathrebu posibl. Faint o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd i hyrwyddo gweithgareddau eich cyngor?

| Opsiynau Cyfathrebu | Yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd (Ie/Na) | Os ie, a yw'n effeithiol? Sut ydych chi'n gwybod? | Os na, a yw'n bosibilrwydd? |
|---|---|---|---|
| Anffurfiol - ar lafar e.e. wrth giât yr ysgol, preswylwyr, cerddwyr cŵn | | | |
| Hysbysfyrddau'r cyngor (ffisegol ac electronig) | | | |
| Ffenestri siopau a hysbysfyrddau | | | |
| Lleoliadau cymunedol | | | |
| Hysbysfyrddau cymunedol | | | |
| Ffeiriau a gwyliau cymunedol | | | |
| Diwrnodau agored | | | |
| Taflenni | | | |
| Baneri - wedi'u hargraffu | | | |
| Newyddlenni cymunedol | | | |
| Cyfeiriadur o sefydliadau lleol | | | |
| Cyfeiriadur o fusnesau a gwasanaethau | | | |
| Arwyddion palmant ar Fyrddau 'A' | | | |
| Digwyddiadau ymgynghori | | | |
| Sioeau teithiol | | | |
| Posteri mewn lleoliadau cymunedol | | | |
| Blwch sylwadau mewn siopau | | | |
| Y wasg ysgrifenedig | | | |
| Radio lleol | | | |
| Teledu | | | |
| Gwefannau grwpiau lleol e.e. ysgolion, clybiau chwaraeon etc. | | | |
| Gwefannau busnesau lleol | | | |
| Blogiau | | | |
| Fforymau ar-lein | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Facebook | | | |
| Twitter | | | |
| Gwasanaeth ffôn i'r rhai sy'n drwm eu clyw | | | |
| Negeseuon testun torfol | | | |
| Eraill | | | |

## Atodiad 2: Templed Datganiad i'r Wasg

[Rhowch logo eich cyngor yma]

[Datganiad i'r Wasg Cyngor *Cymuned Unrhyw Le*]

[dyddiad, mis] 202[X]

Nodwch a yw'r datganiad i'r wasg i'w ryddhau ar unwaith neu dan embargo tan ddyddiad/amser penodedig.

**Ysgrifennwch eich pennawd**

(gan dynnu sylw at y prif bwynt)

Ysgrifennwch eich erthygl yma.

Paragraff 1 - y 5 cwestiwn.

Paragraff 2 - ymhelaethu ar y manylion

Dyfyniad

Paragraff 3 - cefndir ychwanegol

Gorffennwch gyda DIWEDD Y DATGANIAD I'R WASG

Cofiwch gynnwys eich manylion cyswllt

Cofiwch gynnwys eich Nodyn i Olygyddion

## Atodiad 3: Ffurflen Gydsynio i Gyfweleion

Weithiau, byddwn yn cynnal cyfweliadau â phobl sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau *Cyngor Unrhyw Le* a gallant ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir mewn cyhoeddiadau wedi'u hargraffu a deunyddiau cyhoeddusrwydd a gynhyrchwn, yn ogystal ag ar ein gwefan.

Rwy'n ymwybodol bod cymryd rhan yn y cyfweliad hwn yn wirfoddol. Os, am unrhyw reswm, y byddaf yn dymuno rhoi'r gorau i'r cyfweliad, gallaf wneud hynny heb orfod rhoi esboniad. Rwy'n deall bwriad a phwrpas y cyfweliad hwn.

**Llofnod: .......................................................................................**

**Dyddiad:.................................**

O bryd i'w gilydd, gall y cyfryngau ddefnyddio gwybodaeth am weithgareddau *Cyngor Unrhyw Le* a gall ymddangos mewn papurau newydd lleol neu genedlaethol, neu ar raglenni newyddion ar y teledu.

Rhowch gylch o amgylch eich ateb i gwestiynau 1 i 5 isod, yna llofnodwch a dyddiwch y ffurflen.

1. A allwn ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir yn eich cyfweliad mewn cyhoeddiadau wedi'u hargraffu ac arddangosfeydd yr ydym yn eu cynhyrchu at ddibenion hyrwyddo? Gallwch / Na allwch

2. A allwn ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir yn eich cyfweliad ar ein gwefan? Gallwch / Na allwch

3. Ydych chi'n fodlon i'ch dyfyniad ymddangos yn y cyfryngau print? Ydw / Nac ydw

4. Ydych chi'n fodlon i'ch dyfyniad ymddangos yn y cyfryngau darlledu? Ydw / Nac ydw

5. Rwy'n deall y gall fy enw ymddangos mewn unrhyw sylw yn y cyfryngau. Ydw / Nac ydw

Nodwch y gellir gweld gwefannau ledled y byd ac nid dim ond yn y Deyrnas Unedig lle mae cyfraith y DU yn berthnasol.

Cytundeb y Cyfranogwr:

Rwyf wedi darllen yr amodau defnyddio sydd ar gefn y ffurflen hon ac yn eu deall.

Llofnod:

..........................................................................................................................

Enw (mewn priflythrennau): ......................................... .......................................

Dyddiad:.................................

## Atodiad 4: Ffurflen Gydsynio ar gyfer Ffotograffau

I Riant neu Warcheidwad: ...................................... ............................................... ............

Enw'r Plentyn/Person Ifanc: ........................................ ................................................ ...

Gweithgaredd: ......................................................................................................................

Efallai y byddwn yn tynnu lluniau o'r bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau ac yn achlysurol, yn defnyddio'r delweddau hyn mewn cyhoeddiadau wedi'u hargraffu a deunyddiau cyhoeddusrwydd yr ydym yn eu cynhyrchu, yn ogystal ag ar ein gwefan. Efallai y byddwn hefyd yn gwneud recordiadau fideo neu ar we-gamera.

O bryd i'w gilydd, bydd y cyfryngau yn ymweld â *Chyngor Unrhyw Le* a fydd yn tynnu lluniau neu'n ffilmio mewn digwyddiad proffil uchel. Gall pobl ifanc ymddangos yn y delweddau hyn, a all ymddangos mewn papurau newydd lleol neu genedlaethol, neu ar raglenni newyddion ar y teledu.

Er mwyn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018, mae angen eich caniatâd arnom cyn y gallwn dynnu llun neu wneud unrhyw recordiadau o'ch plentyn neu'r person ifanc a enwir uchod.

Rhowch gylch o amgylch eich ateb i gwestiynau 1 i 4 isod, yna llofnodwch a dyddiwch y ffurflen a'i dychwelyd:

1. A allwn ddefnyddio llun ohonoch chi/eich plentyn yn y cyhoeddiadau wedi'u hargraffu a'r arddangosfeydd yr ydym yn eu cynhyrchu at ddibenion hyrwyddo? Gallwch / Na allwch

2. A allwn ddefnyddio llun ohonoch chi/eich plentyn ar ein gwefan? Gallwch / Na allwch

3. A allwn eich recordio chi/eich plentyn ar fideo neu we-gamera? Gallwch / Na allwch

4. Ydych chi'n fodlon i lun ohonoch chi/eich plentyn ymddangos yn y cyfryngau? Ydw / Nac ydw

Nodwch y gellir gweld gwefannau ledled y byd ac nid dim ond yn y Deyrnas Unedig lle mae cyfraith y DU yn berthnasol. Mae'r amodau ar gyfer defnyddio'r ffotograffau hyn i'w gweld ar dudalen 2 o'r ffurflen hon.

Rwyf wedi darllen a deall yr amodau defnyddio sydd ar gefn y ffurflen hon.

Llofnod y rhiant neu'r gwarcheidwad:

.............................................................................................................

Enw (mewn priflythrennau): .......................................... .......................................

Dyddiad:.................................

**Darllenwch y wybodaeth ar gefn y ddalen hon.**

Amodau defnyddio delweddau:

1. Mae'r ffurflen hon yn ddilys am bum mlynedd o'r dyddiad y byddwch chi'n ei llofnodi. Bydd y caniatâd yn dod i ben yn awtomatig ar ôl yr amser hwn.

2. Ni fyddwn yn ailddefnyddio unrhyw ffotograffau na recordiadau ar ôl y cyfnod pum mlynedd hwn.

3. Ni fyddwn yn defnyddio manylion personol nac enwau llawn (sy'n golygu enw cyntaf a chyfenw) unrhyw berson ifanc mewn delwedd ffotograffig, ar fideo, ar ein gwefan nac yn unrhyw un o'n cyhoeddiadau eraill sydd wedi'u hargraffu.

4. Ni fyddwn yn cynnwys cyfeiriadau e-bost neu bost personol, rhifau ffôn na chyfeiriadau cyfryngau cymdeithasol ar ein gwefan na chyhoeddiadau eraill wedi'u hargraffu.

5. Os byddwn yn defnyddio ffotograffau o bobl ifanc unigol, ni fyddwn yn defnyddio enw'r person hwnnw yn y testun neu'r capsiwn sy'n cyd-fynd â'r ffotograff.

6. Os byddwn yn enwi person ifanc yn y testun, ni fyddwn yn defnyddio ffotograff o'r person hwnnw i gyd-fynd â'r erthygl.

7. Efallai y byddwn yn defnyddio ffotograffau grŵp neu luniau gyda labeli cyffredinol iawn, fel “gwneud addurniadau Nadolig”, “mynychu cyfarfod fforwm” ac ati.

8. Dim ond delweddau o bobl ifanc sydd wedi'u gwisgo'n addas y byddwn yn eu defnyddio, er mwyn lleihau'r risg y bydd delweddau'n cael eu defnyddio mewn modd amhriodol.

## Atodiad 5: Hygyrchedd a Dylunio Dwyieithog

Hygyrchedd

Mae'n bwysig sicrhau bod cyhoeddiadau eich cyngor yn hygyrch i gynifer o bobl â phosibl, ac mae hyn yn cynnwys pobl â nam ar eu golwg. Gall fod yn ddefnyddiol cynnwys pobl o'ch cymuned wrth ddatblygu cynllun ar gyfer cynhyrchu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch.

Mae'r canllawiau sylfaenol ar wefan Cymdeithas Fformatau Hygyrch y DU: www.ukaaf.org

Dyluniad dwyieithog

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig cyngor ar ddylunio i helpu sefydliadau i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog deniadol sy'n hawdd eu deall.

Ei nod yw rhoi cyngor clir ac ymarferol ar bob agwedd ar ddylunio dwyieithog, o arwyddion a graffeg i ffurflenni electronig a chyhoeddiadau. Mae'r cyngor wedi ei gyfeirio at bawb sy'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol neu breifat sy'n ymwneud â chynhyrchu deunydd dwyieithog.

Gweler y Canllaw Dylunio Dwyieithog ar wefan Comisiynydd y Gymraeg

http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/English/Publications%20List/Bilingual%20Design%20Guide%202018.pdf

## Atodiad 6: Templed Dyddiad i'r Dyddiadur

Dyddiad i'r Dyddiadur

Enw'r cyngor

[NODWCH Y DYDDIAD]

Teitl y Digwyddiad

Digwyddiad yn [NODWCH Y LLEOLIAD]

Manylion y digwyddiad: [NODWCH FANYLION EICH DIGWYDDIAD]

Dyddiad: [NODWCH Y DYDDIAD]

Amser: [NODWCH YR AMSEROEDD DECHRAU A GORFFEN]

Cyfeiriad: [NODWCH Y CYFEIRIAD LLAWN]

Cyfleoedd i'r cyfryngau:

[NODWCH FANYLION POBL Y GALL Y CYFRYNGAU DYNNU EU LLUNIAU A/NEU EU CYFWELIAD YN EICH DIGWYDDIAD]

I gael rhagor o wybodaeth, i gadarnhau presenoldeb neu i drefnu cyfweliadau, cysylltwch â:

[MANYLION CYSWLLT]

## Atodiad 7: Offeryn cynllunio ar gyfer cyfathrebu â grwpiau

Nodwch pa grŵp/grwpiau rydych chi eisiau eu targedu

↓

Aseswch effeithiolrwydd y dulliau cyfathrebu presennol y mae eich tîm yn ei ddefnyddio i ymgysylltu â grwpiau

↓

Penderfynwch ar y dull(iau) gorau i'w (d)defnyddio ar gyfer y grŵp rydych yn ei dargedu

↓

Datblygwch eich negeseuon allweddol ar gyfer y grŵp rydych yn ei dargedu

↓

Cynlluniwch ymgyrch rhannu gwybodaeth a'i rhoi ar waith

↓

Gwerthuswch effeithiolrwydd yr ymgyrch

↓

Nodwch pa grŵp/grwpiau rydych chi eisiau eu targedu nesaf.

## Atodiad 8: Gweithgareddau Gweithdy

Mae'r gweithgareddau canlynol wedi'u cynllunio i gynghorau cymunedol a thref eu defnyddio i ddatblygu eu harbenigedd cyfathrebu ymhellach. Gallai'r gweithdy gynnwys staff, cynghorwyr ac aelodau o'r gymuned.

### Gweithgaredd 1: Calendr Cyfathrebu

- Gan ddefnyddio cynlluniwr wal gwag, gofynnwch i'r cyfranogwyr gymryd rhan mewn sesiwn taflu syniadau am yr holl weithgareddau cyfathrebu, cyfleoedd a therfynau amser ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- Nesaf, fel grŵp, penderfynwch ar godau lliw ar gyfer y gwahanol fathau o weithgaredd e.e. ar-lein, newyddlenni, digwyddiadau.
- Yna gellir troi'r wybodaeth a gasglwyd yn galendr electronig neu ar-lein a'i rannu â'r grŵp.

### Gweithgaredd 2: Beth yw'r sefyllfa bresennol?

- Gofynnwch i'r cyfranogwyr drafod dull eich cyngor o gyfathrebu ac ystyried ar ba gam rydych chi'n gweithio ar hyn o bryd.
- Penderfynwch ble mae'ch cyngor eisiau bod a sut rydych chi'n meddwl y gallwch chi gyrraedd yno.
- Trafodwch syniadau am sut i symud tuag at gam 3.

### Gweithgaredd 3: Creu Cysylltiadau

- Gofynnwch i'r cyfranogwyr feddwl am gyfryngau cymunedol lleol a'u rhestru (fel papurau newydd lleol, cylchgronau cymunedol, newyddlenni, gorsafoedd radio a hyd yn oed sianeli teledu).
- Nesaf, ymchwiliwch i fanylion cyswllt pob un o'r allfeydd cyfryngau a nodwyd a'u cofnodi.
- Ar ôl ichi gofnodi'r manylion cyswllt, gwnewch alwad ffôn cyswllt neu anfonwch e-bost at bob cwmni cyfryngau i wirio eu dyddiadau cau am straeon gan eu bod i gyd yn wahanol. Ychwanegwch yr wybodaeth hon at eich rhestr o gysylltiadau'r cyfryngau.

### Gweithgaredd 4: Cyrraedd y targed

- Gan ddefnyddio'ch rhestr o gysylltiadau cyfryngau wedi'i diweddaru, nodwch y cyfryngau i ymchwilio ymhellach iddynt. Casglwch enghreifftiau o bapurau newydd, newyddlenni a chylchgronau lleol. Ar gyfer pob cyfrwng nodwch y mathau o stori y maent yn eu cynnwys a phroffil y gynulleidfa darged.

- Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ba gyfryngau i'w targedu gyda stori benodol, trafodwch pa gyfryngau sydd fwyaf tebygol o roi sylw i stori neu weithgaredd y mae eich tîm yn ei gynllunio ar hyn o bryd.

**Gweithgaredd 5: Ysgrifennu Datganiad Newyddion**

- Gan ddefnyddio'r Templed Datganiad i'r Wasg (Atodiad 2), gofynnwch i'r cyfranogwyr roi cynnig ar ddrafftio datganiad newyddion ar gyfer un o'u gweithgareddau, digwyddiadau neu gyflawniadau.
- Rhannwch y datganiadau newydd drafft a gofynnwch i gyfranogwyr eraill roi adborth adeiladol.

**Gweithgaredd 6: Pwy ydym ni?**

- Gofynnwch i'r cyfranogwyr awgrymu cynnwys ar gyfer paragraff byr am eich cyngor i'w ddefnyddio mewn Nodiadau i Olygyddion ar ddatganiad i'r wasg. Anelwch at 100 i 200 o eiriau - peidiwch â rhoi gormodedd o wybodaeth neu bydd y gohebydd yn ei anwybyddu.
- Casglwch syniadau a rhannwch y drafft gyda'r cyfranogwyr er mwyn iddynt roi sylwadau arno. Penderfynwch ar y testun terfynol, y gellir ei ddefnyddio wedyn pryd bynnag y bydd ei angen. Gallwch hefyd ddefnyddio'r testun ar gyfer y dudalen 'Amdanom Ni' ar eich gwefan neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Gweithgaredd 7: Taro'r Penawdau**

- Casglwch enghreifftiau o bapurau newydd, cylchgronau a newyddlenni cymunedol a rhowch ddetholiad i bob grŵp. Gofynnwch i'r cyfranogwyr ddewis yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn dri phennawd da a thri phennawd gwael a disgrifio pam maen nhw wedi dewis y rheini.
- Yn olaf, gofynnwch iddyn nhw ddewis un o weithgareddau cyfredol y cyngor neu'r gymuned ac ysgrifennu eu pennawd diddorol eu hunain.

**Gweithgaredd 8: Dewis Lluniau**

- Mae ansawdd unrhyw ffotograff yn hanfodol bwysig o ran cynyddu ei siawns o gael ei ddefnyddio. Mae dewis y ffotograffau gorau i ddarlunio'ch straeon yn sgil defnyddiol.
- Casglwch enghreifftiau o bapurau newydd a chylchgronau a rhowch ddetholiad i bob grŵp. Gofynnwch iddyn nhw ddewis yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn ffotograffau arbennig o dda a disgrifio pam maen nhw'n meddwl eu bod nhw'n ddeniadol.

- Yn olaf, gofynnwch iddyn nhw ddarparu ffotograff sy'n adlewyrchu eu gweithgareddau cyfredol yn gywir ac yna ysgrifennu pennawd diddorol amdano.

## Gwybodaeth ddefnyddiol

Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru: Mynediad at wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/access-to-information-guidance-for-community-and-town-councils.pdf

Ymgyrch Plain English: Sut i ysgrifennu mewn Saesneg clir http://www.plainenglish.co.uk/how-to-write-in-plain-english.html

Adnoddau Cymraeg Clir (Cymraeg yn unig) Adnoddau Cymraeg Clir Canolfan Bedwyr (bangor.ac.uk)